# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 8 Ionawr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Proffil Cymru yn Ewrop

**C12 Jonathan Morgan:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut y mae'n codi proffil Cymru yn Ewrop? (OAQ14852)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Un flaenoriaeth allweddol y Cabinet yw codi proffil Cymru. Mae swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel a'r ffaith bod y Cynulliad yn aelod o Ganolfan Ewropeaidd Cymru yn rhoi cyfle i ni godi proffil Cymru yn Ewrop. Mae Gweinidogion y Cynulliad yn mynychu cyfarfodydd ym Mrwsel yn aml, ac yr ydym yn chwarae rhan mewn llawer sefydliad a chynhadledd ranbarthol. Daliwn ati i chwilio am gyfleoedd newydd a manteisio ar y rhai cyfredol i hybu Cymru.

### Rôl y Pwyllgorau Pwnc wrth Greu Polisïau'r Cynulliad

**C13 Geraint Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar rôl y Pwyllgorau Pwnc wrth greu polisïau'r Cynulliad? (OAQ14844)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Pwyllgorau Pwnc yn gwneud gwaith pwysig wrth graffu ar fanylion a rhoi adroddiadau yn ôl i'r Cynulliad. Yr ydym yn croesawu hynny ac yr ydym wedi defnyddio eu hargymhellion yn gadarnhaol wrth ddatblygu a gweithredu polisïau.

### Swyddfeydd y Cynulliad yng Ngogledd Cymru

**C14 Alun Pugh:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar swyddfeydd y Cynulliad yng ngogledd Cymru? (OAQ14860)

**Prif Weinidog Cymru:** Gan i mi ateb cwestiwn tebyg ar 27 Tachwedd 2001, fe wyddoch y rhoddodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad ar 19 Hydref 2001, yn cyhoeddi bod y Cabinet yn bwriadu ymgymryd ag arolwg hirdymor o leoliadau swyddfeydd y Cynulliad. Nod yr arolwg hwnnw yw cynyddu cyfran gweithwyr y Cynulliad a leolir y tu allan i Gaerdydd. Mae'n rhy gynnar i roi rhifau penodol am ranbarthau penodol, ond un elfen o'r arolwg fydd ystyried pa gyfle sydd i gynyddu nifer gweithwyr y Cynulliad a leolir yn y Gogledd. O ganlyniad i'r arolwg hwn, mae fy swyddogion wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd ag awdurdodau lleol ledled Cymru i ofyn am eu sylwadau.

Yn y cyfamser, yr ydym wrthi'n lleoli swyddi newydd yn y Cynulliad y tu allan i Gaerdydd drwy sefydlu corff newydd, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, y bydd ganddi swyddfeydd rhanbarthol ledled Cymru erbyn y flwyddyn nesaf. Yn y Gogledd, mae hynny'n golygu y disgwylir cyflogi mwy o bobl yn ein swyddfeydd yn ein hadeiladau presennol ym Mae Colwyn a Chaernarfon a rhentu swyddfeydd newydd yn yr Wyddgrug. At ei gilydd, lleolir rhyw 75 o weithwyr yr arolygiaeth yn y swyddfeydd hyn yn y Gogledd erbyn Ebrill 2002.

### Hybu Cymru a'r hyn a Gyflawnwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**C15 Peter Black:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch hybu Cymru a'r hyn y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i gyflawni? (OAQ14857)

**Prif Weinidog Cymru:** Trafodaf ystod eang o faterion ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd. Yr wyf wedi trafod y materion hyn yn gyffredinol, ond nid mewn cyfarfod penodol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gydweithio â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd i hybu Cymru a pharhau i lwyddo dros bobl Cymru.